

19.12.2011

Buddsoddiad newydd i hybu swyddi lleol

Mae Menter Iaith Conwy, sydd â'i bencadlys yn Llanrwst, yn dathlu ar ôl llwyddo i ennill buddsoddiad o £400,000 i ehangu eu gwaith.

Bydd y buddsoddiad newydd o'r Cynllun Datblygu Gwledig – ffrwd o arian o'r Undeb Ewropeaidd a weinyddir gan Lywodraeth Cymru – yn galluogi'r fenter iaith i adeiladu ar ei gwaith mewn tri maes allweddol:

- Hyfforddi siaradwyr Cymraeg lleol i gymhwyso fel hyfforddwyr gweithgareddau awyr agored – er mwyn helpu eu galluogi nhw i gael gwaith mewn diwydiant sy'n tyfu mewn ardaloedd traddodiadol Cymraeg. O'r 147 sydd wedi derbyn hyfforddiant eisoes mae 15 wedi cael hyd i waith yn y maes a 12 yn cael gwaith llawrydd trwy rwydwaith y Mentrau.
- Darparu cyrsiau Cymraeg lle mae niferoedd rhy isel o fyfyrwyr i gymhwyso am gyllid prif ffrwd. Hyd yn hyn mae dros 100 wedi derbyn gwersi Cymraeg dwys, mae un darparwr wedi gallu penodi tiwtor llawn amser ychwanegol.
- Cyfieithu cymunedol – darparu gwasanaethau cyfieithu rhatach i'r sector gwirfoddol ac elusennau. Mae'r menter cymdeithasol yma yn cyflogi 4 efo ychydig iawn o arian grant.

“Roedden ni wedi gwneud cais am gyllid Cynllun Datblygu Gwledig i ehangu'n gweithgareddau yn y meysydd allweddol hyn oherwydd mae ein llwyddiannau ni eisoes wedi dangos galw amlwg, yng Nghonwy a thu hwnt” meddai prif weithredwr Menter Iaith Conwy, Meirion Davies.

“Mae ennill y buddsoddiad yma'n newyddion rhagorol, gan y bydd yn diogelu swyddi sy'n bod eisoes dros y ddwy flynedd nesaf, a bydd hefyd yn ein galluogi ni i gyflogi o leiaf un aelod ychwanegol o staff. Bydd ehangu'r rhaglen yn cynorthwyo ni creu mwy o waith.

“Tra bod ein gwaith yn y gorffennol wedi bod yn gyfan gwbl o fewn sir Conwy, bydd y cyllid newydd yn ein galluogi ni i ehangu'n gwaith i ardaloedd eraill o'r gogledd mewn partneriaeth efo mentrau iaith eraill.

“Mi fydd o'n golygu, er enghraifft, y bydd ein gwasanaeth cyfieithu ar gael i gyrff ledled y gogledd, ac y byddwn ni'n medru bron â dyblu'r nifer o bobl y gallwn ni eu hyfforddi ar gyfer gwaith fel hyfforddwyr awyr agored.

“Mae’n llwyddiant ni’n dangos sut y gall y gwaith o adfywio’r iaith hybu economïau lleol, ac mae hyn yn hwb ac yn anogaeth fawr inni wrth edrych ymlaen at y flwyddyn newydd.”